# Cofnodion Cyfarfod o’r Bwrdd, 16 Gorffennaf 2021

**Yn bresennol**

Shan Morgan

Meena Upadhyaya

Ellen Donovan

Gareth Lynn

Andrew Goodall

Andrew Slade

Claire Bennett

Des Clifford

Andrew Jeffreys

Peter Kennedy

Natalie Pearson

Gawain Evans

Helen Lentle

Charlotte Thomas

Piers Bisson

**Yn mynychu:**

Simon Dean

Samia Saeed-Edmonds

Andrew Sallows

Jo Glenn

Catrin Sully

**Ysgrifenyddiaeth:**

Charmain Watts

**Ymddiheuriadau/ddim yn bresennol:**

Reg Kilpatrick

David Richards

Jeff Farrar

Tracey Burke

## 1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb a oedd yn bresennol a dywedodd wrth y bwrdd fod ymddiheuriadau wedi dod i lawr oddi wrth Reg Kilpatrick a David Richards. Eglurodd hefyd na fyddai Jeff Farrar yn bresennol yn y cyfarfod heddiw.

1.2 Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i aelodau'r bwrdd a ydynt yn fodlon â chofnodion y cyfarfod diwethaf. Dylid bwydo unrhyw sylwadau a/neu ddiweddariadau yn ôl i'r ysgrifenyddiaeth cyn iddynt gael eu cyhoeddi yr wythnos nesaf.

## 2. Materion Presennol, gan gynnwys COVID-19

2.1 Rhannodd Andrew Goodall a Simon Dean yr wybodaeth ddiweddaraf â'r bwrdd, o ran datblygiadau diweddaraf y Rhaglen Adfer iechyd, sy'n gam allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu.

2.2 Dywedodd Simon:

- Mae COVID-19 wedi cael effaith fawr ar gymdeithas, ac mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi wynebu heriau mawr, ac wedi gorfod ymateb iddynt er mwyn cadw'r boblogaeth a'u gweithluoedd yn ddiogel.
- Cyhoeddwyd y ddogfen “Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru COVID-19: Edrych tua’r Dyfodol” ym mis Mawrth. Mae’r ddogfen yn crynhoi cyfeiriad strategol adferiad.
- Er nad yw maint y costau adfer yn gwbl hysbys, mi fydd yn sylweddol. Bydd manylion y cynlluniau, sy'n gorfod cydbwyso'r ymateb parhaus i COVID-19 ag adferiad, goblygiadau i'r gweithlu, a'r costau, yn cymryd amser i ddatblygu. Mae gennym gyfle i ddyrannu adnoddau'n wahanol er mwyn annog yr ymddygiadau a'r dulliau cywir wrth adfer.
- Bydd angen sicrwydd ar sefydliadau'r GIG am adnoddau yn y dyfodol er mwyn gwneud penderfyniadau cynaliadwy yn hytrach nag ymateb gyda chamau gweithredu tymor byr yn unig, yn unol ag egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

2.3 Croesawodd y bwrdd y diweddariad a thrafodaethau pellach a oedd yn canolbwyntio ar:

- Heriau.
- Adnoddau staff - gan gynnwys recriwtio a'r her o gadw staff.
- Sut rydym yn parhau i ddarparu gwaith atal ac iechyd y cyhoedd ehangach, wrth i ni barhau i ymateb i'r pandemig.
- Rhestrau aros.
- Cyllid.

2.4 Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol a fydd y prosesau sydd wedi newid yn ystod COVID yn parhau i gael eu defnyddio wrth symud ymlaen. Dywedodd Simon y bydd y newidiadau sydd wedi gwella gwasanaethau yn parhau, a bydd adferiad yn cyflwyno cyfleoedd i drawsnewid gwasanaethau gan ddefnyddio dysgu o ymateb COVID-19, er enghraifft ymgynghoriadau rhithwir.

## 3. Cynnig y Bwrdd Cysgodol

3.1 Esboniodd Andrew Jeffreys a Jo Glenn, ers y trafodaethau cychwynnol ar sut y gallai bwrdd cysgodol weithio ym Mwrdd Llywodraeth Cymru ar 26 Mawrth, fod nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal gydag aelodau presennol a blaenorol o'r bwrdd cysgodol ac yn y Grŵp Llywio Cynhwysiant ac Amrywiaeth (DISG).

3.2 Cyfeiriodd Andrew at y papur sy'n cynnig, fel rhan o'n hymrwymiad i wella amrywiaeth ein ffora gwneud penderfyniadau, y dylid sefydlu bwrdd cysgodol o aelodau staff amrywiol a fydd yn cyfarfod cyn pob cyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru i drafod papurau bwrdd. Bydd Cadeirydd y bwrdd cysgodol yn mynychu cyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru i roi barn y bwrdd cysgodol ar bob eitem, a bydd hyn yn golygu y bydd syniadau Bwrdd Llywodraeth Cymru ei hun yn cael eu herio gan grŵp o bobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein sefydliad. Esboniodd Jo ymhellach y trefniadau a oedd yn cynnwys:

- Dull recriwtio.
- Ymrwymiad Amser.
- Cynigion Aelodaeth
- Caniatáu amser yn ystod cyfarfodydd bwrdd i ystyried safbwyntiau byrddau cysgodol ym mhob eitem.
- Gwerthuso i ddysgu gwersi ar gyfer ffora gwneud penderfyniadau eraill.

3.3 Croesawodd y bwrdd y cynnig hwn a'i gefnogi'n llawn, roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Cydnabu'r Aelodau y bydd yn rhaid lleihau agenda Bwrdd Llywodraeth Cymru er mwyn caniatáu amser i Gadeirydd y bwrdd cysgodol roi adborth.
- Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol am ragor o wybodaeth am y gwersi a ddysgwyd gan sefydliadau eraill.
- Ni ddylai'r bwrdd cysgodol ddod yn fforwm lobïo.
- Cytunodd yr Aelodau y dylem fonitro a gwerthuso'r effaith ar Fwrdd Llywodraeth Cymru.
- Dylid gwahodd yr Undeb Llafur i fynychu'r bwrdd cysgodol.
- Croesawodd aelodau'r Bwrdd y cyfle i gael golwg ar y cylch gorchwyl ar ôl ei ddrafftio

**CAM GWEITHREDU 1 –** Adborth ar y gwersi a ddysgwyd gan Adrannau eraill y Llywodraeth a'r trefniant i'w hanfon at y Cyfarwyddwyr Anweithredol.

**CAM GWEITHREDU 2** – Rhagor o wybodaeth i'w darparu ynghylch sut rydym yn gwerthuso/mesur effaith y bwrdd cysgodol.

## 4. Y Rhaglen Lywodraethu

4.1 Darparodd Catrin Sully yr wybodaeth ddiweddaraf ar ddarpariaeth y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd ar 15 Mehefin.

4.2 Esboniodd Catrin:

- mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys 96 o ymrwymiadau sy'n eiddo i'r Cabinet sy'n gofyn am adnabod a chanolbwyntio ar draws y llywodraeth; mae 149 o ymrwymiadau pellach a fydd yn eiddo i Weinidogion portffolio unigol wedi'u cynnwys yn y ddogfen. Dywedodd Catrin fod arweinwyr busnes wedi'u neilltuo i'r System Adrodd gwybodaeth busnes, BIRT, a fydd yn cael ei ddefnyddio i fonitro'r modd y cyflawnir y camau gweithredu.
- roedd y Prif Weinidog wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd dwyochrog gyda Gweinidogion i drafod cyfres o bapurau/cynlluniau sy'n gofyn am feddwl a/neu benderfyniadau gwleidyddol cynnar.
- am y tro cyntaf, mae gwaith comisiynu eleni ar gyfer Cyllideb 2022-3 yn broses ar y cyd rhwng Trysorlys Cymru a Swyddfa'r Cabinet, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y Rhaglen Lywodraethu a'r Gyllideb.

4.3 Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol am yr adnoddau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weinidog, a bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidogion - bydd gofynion adnoddau a blaenoriaethu gwaith yn parhau i fod yn rhan o'r trafodaethau hynny.

4.4 Cydnabu'r bwrdd fod y Rhaglen Lywodraethu yn gynllun 5 mlynedd a bod angen mapio adnoddau yn y tymor hir yn ogystal â thymor byr.

4.5 Cynigiodd Cyfarwyddwyr Anweithredol eu cymorth i ddarparu cefnogaeth, her neu waith craffu i helpu i gyflawni'r gwaith hwn. Croesawodd y Bwrdd yr wybodaeth hon.

**CAM GWEITHREDU 3:** Catrin Sully i ystyried sut y gall Cyfarwyddwyr Anweithredol helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

## 5. Unrhyw fater arall

5.1 Dim